**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 13 Chwefror 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | L S Gibbard |
| D W Helliwell | L James | S M Jones |
| | L J Tyler-Lloyd | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | | |

**Mynychwyr eraill**

| | |
|---|---|
| J A Raynor | Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |
| Brian Roles | Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg |
| Cath Swain | Rheolwr Trafnidiaeth Integredig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): M Durke, S J Gallagher, B Hopkins a/ac M A Langstone
Aelodau Cyfetholedig(wyr): A Roberts

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd y Cynghorwyr Susan Jones a Dave Anderson Thomas gysylltiadau personol ar gyfer eitemau 5 a 6.

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

3 **Cofnodion**

Derbyniwyd y llythyrau a'r cofnodion gan y panel.

4 **Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif**

Diolchodd y panel i'r Cynghorydd Raynor, Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau, am ddarparu adroddiad ac am fod yn bresennol yn y cyfarfod i drafod y cynnydd o ran Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'n ddiweddariad cadarnhaol iawn o ran y rhaglen. Mae pethau wedi bod yn symud ymlaen yn dda yn yr ymagwedd dymor hir hon i wella ein darpariaeth ysgol ac mae'n gyson â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae Band A bron wedi'i gwblhau ac mae hwn wedi cael effaith fawr, gan ddangos canlyniadau cadarnhaol wrth ei wneud yn y ffordd gynlluniedig hon.
- Symud i fand B, sydd teirgwaith maint Band A. Mae cynnydd da yn cael ei wneud gan ystyried bod llai o swyddogion ac adnoddau ledled y cyngor, gan gynnwys cefnogaeth gyfreithiol. Gwaethygwyd sefyllfa'r diffyg staff a'r gwydnwch gan ofynion mentrau ariannu cyfalaf eraill y mae'r cyngor hefyd yn ceisio eu darparu mewn perthynas â lleihau maint dosbarthiadau babanod, grantiau gofal plant, Dechrau'n Deg a Hybiau Cymunedol yr 21ain Ganrif. Mae hefyd diffyg gwydnwch a gallu y tu allan i'r awdurdod, gan fod nifer y contractwyr ar y fframwaith presennol wedi lleihau, ac mae'r risgiau ariannol i'r rheini sydd ar ôl wedi cynyddu.
- Mae breuder yn y sector adeiladu a gallu'r cyngor i gyflogi a chadw sgiliau wrth i gyflogau uwch gael eu cynnig yn allanol yn faterion sydd hefyd yn effeithio ar ba mor gyflym y gallwn symud ymlaen gyda phrosiectau, ac nid y rheini ym maes addysg yn unig. Mae'r cyngor yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer cwmnïau canolig fel eu bod yn gallu cofrestru a gwneud ceisiadau yn y farchnad hon ochr yn ochr â'r sefydliadau mwy sydd â thimau o bobl sydd wedi'u hyfforddi a'u cyflogi i gyflwyno ceisiadau. Bydd hwn yn helpu i ddenu rhagor o gwmnïau i'r farchnad a helpu i gyflogi pobl yn lleol.
- Cymerwyd £61 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer Band B. Caiff y gwaith ei flaenoriaethu a'i drefnu fesul cam yn y rhaglen, fel sy'n digwydd ym Mand A, ac mae hynny'n cynnwys y canlynol ar hyn o bryd:
    - Adeilad newydd Ysgol Gynradd Gorseinon
    - Adeilad newydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion
    - Adeilad newydd Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan
    - Adeilad newydd Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw
    - Adeiladu estyniad ac ailfodelu Ysgol Gyfun Gymraeg Gŵyr i gynyddu nifer y lleoedd ar gyfer 195 o ddisgyblion ychwanegol
    - Gwaith cam cyn adeiladu ar gyfer ailfodelu, adnewyddu ac ymestyn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt
    - Clywodd y panel hefyd y byddai gwaith yn parhau i ddatblygu cynlluniau busnes manwl ar gyfer y cynlluniau cyfalaf sy'n weddill, gan ddibynnu ar faint o adnoddau a swyddogion sydd ar gael.
- Teimlai'r Panel fod yr adroddiad yn un cyffrous sy'n dangos yr holl adeiladau newydd hyn sy'n cael eu creu.
- Gofynnodd y panel beth oedd y ffigwr a gronnwyd ar hyn o bryd ar gyfer cynnal a chadw adeileddol ledled ysgolion yn Abertawe. Hysbyswyd y panel bod arolwg cyflwr yn cael ei gynnal yn ysgolion Abertawe ar hyn o bryd ac unwaith y caiff ei gwblhau bydd ffigwr ar gael. Gofynnodd y panel i weld yr adroddiad arolygu cyflwr a chrynodeb o ffigurau cynnal a chadw strwythurol pan fyddant ar gael.
- Gofynnwyd beth yw canran y gyfradd ymyriad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr adeiladau newydd? Dywedwyd wrth y panel bod dwy ffynhonnell ar gyfer ariannu sef (1) arian cynnal a chadw a chyfalaf traddodiadol gan Lywodraeth Cymru, sy'n

rhoi 65% i ysgolion prif ffrwd, a 75% i UCD ac Ysgolion Arbennig a (2)Model Buddsoddi Cydfuddiannol, sy'n rhoi 81% ond mae costau nes ymlaen.
- Roedd y panel am ddiolch i bawb a fu'n rhan o hyn am eu gwaith caled wrth symud y cynlluniau hyn ymlaen mewn modd mor effeithlon.

5 **Cludiant Ysgol**

Cododd aelod o'r cyhoedd fater i'r panel ei ystyried, sef '*Ni allwch ofyn i riant fynd â'i blentyn i'r ysgol yn ei gar symudedd. Pam nad yw hyn wedi cael ei ystyried oherwydd ei fod yn bryder enfawr i rai rhieni. Os ydych chi'n dechrau defnyddio hyn fel nod, bydd yn wahaniaethol ac ni fydd yn gyfreithlon a bydd yn creu gwrthdaro rhwng y cyngor a'r rhieni'.*

Clywodd y panel y soniwyd am hwn fel rhan o'r adroddiad trosolwg fel rhywbeth y gellir ei ystyried yn y dyfodol. Ni wnaed unrhyw benderfyniad am y mater hwn, nid yw'r mater wedi cael ei drafod yn llawn hyd yn hyn a phan/os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn ceisio cyngor cyfreithiol, ac yn cynnal ymgynghoriad, cyn y byddai unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud.

Diolchodd y panel i'r Cynghorydd Raynor, Brian Roles a Cath Swain, Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig, am ddarparu'r adroddiad briffio ac am fod yn bresennol yn y cyfarfod. Trafodwyd y materion canlynol:

- Mae darpariaeth llawer gwell ar gyfer disgyblion ADY ar draws y sir ac mae hyn wedi arwain at arbedion yn y gyllideb cludiant, oherwydd nad oes angen cludo cynifer o ddisgyblion pellterau mawr i'r ysgol.
- Darperir cludiant am ddim i ddisgyblion sy’n byw dwy filltir neu fwy o ysgol gynradd eu dalgylch neu dair milltir neu fwy o ysgol uwchradd eu dalgylch. Mesurir y pellter hwn yn ôl y llwybr cerdded byrraf yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y cyngor sy'n seiliedig ar Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a darpariaeth statudol gysylltiedig ac arweiniad gweithredol. Darperir cludiant am ddim o ddechrau'r flwyddyn ysgol y mae'r disgyblion yn cyrraedd pum mlwydd oed ond ni ddarperir i blant iau/oed meithrin.
- I blant â datganiad o anghenion dysgu ychwanegol, mae’r polisi cludiant cyffredinol a ddisgrifir uchod yn berthnasol. Darperir cludiant am ddim i ddysgwyr ADY lle mae'r Adran Addysg yn eu gosod mewn ysgol brif ffrwd sy'n wahanol i'w hysgol ddalgylch leol; mewn cyfleuster addysgu arbenigol sy'n wahanol i'w hysgol leol; neu mewn ysgol arbennig. Os bydd rhiant yn dewis anfon ei blentyn i ysgol brif ffrwd wahanol, yna bydd y rhiant yn gyfrifol am unrhyw drefniadau neu gostau cludiant.
- Gall y cyngor ddarparu cludiant o’r cartref i’r ysgol am ddim yn ôl ei ddisgresiwn gan ddibynnu ar natur anghenion dysgu ychwanegol y disgybl. Os yw'r cyngor yn credu y gellir diwallu anghenion plentyn yn ei ysgol brif ffrwd leol ond bod ei rieni'n dewis ysgol brif ffrwd wahanol, y rhiant fydd yn gyfrifol am unrhyw drefniadau a chostau cludiant.
  - Roedd 4,366 o ddisgyblion yn derbyn cludiant o’r cartref i’r ysgol yn y brif ffrwd am gost o £3.627 miliwn yn 2018/19.
  - Roedd 678 o ddisgyblion ADY wedi derbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol am gost o £4.071m y llynedd

  - Roedd 151 o gontractau ar gyfer cludiant prif ffrwd ac roedd 409 o ddisgyblion ADY y llynedd.
- Mae nifer y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn Abertawe wedi aros yn sefydlog. Fodd bynnag, mae cost gyffredinol darpariaeth cludiant wedi cynyddu'n sylweddol. Clywodd y panel fod y cynllun ariannol tymor canolig a'r cynlluniau gweithredol yn adlewyrchu'r angen i nodi gweithredoedd sylweddol pellach i liniaru pwysau costau ac i geisio sicrhau sefydlogrwydd tymor hir.
- Mae'r mesur yn gofyn bod y cyngor yn ystyried y canlynol wrth ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol: oedran y plentyn, natur y llwybr, unrhyw ddymuniad sydd gan y rhiant am dderbyn addysg mewn ysgol sy'n darparu addysg grefyddol, yn Gymraeg, anghenion dysgwyr anabl a phlant sy'n derbyn gofal.
- Y Adran Addysg sy'n goruchwylio'r polisi cludiant ysgol ac mae'r Uned Cludiant Integredig yn yr Adran Lleoedd yn gyfrifol am gyflwyniad gweithredol yr anghenion cludiant yn unol â'r polisi.
- Cyflawnwyd arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, trwy reoli'r gwasanaeth yn gadarn ac yn gyson a thrwy aildendro contractau a llwybrau'r bysys a gweithredwyr tacsis yn rheolaidd, er mwyn cael darpariaeth mor effeithlon â phosib. Cyflawnwyd y rhain heb ddefnyddio cefnogaeth ymgynghorol allanol ddrud.
- Gofynnodd y panel gwestiwn am brynu a defnyddio cerbydau sy'n eiddo i'r cyngor ar gyfer cludiant ysgol a dysgu ADY penodol. Clywodd y panel fod y cerbydlu mewnol yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf cyn contractio darparwyr eraill. Clywodd y panel fod nifer o'r cerbydlu hŷn yn cael eu disodli gan gerbydau a fydd yn fwy hygyrch ac felly yn fwy ystwyth o ran eu defnydd.
- Nododd yr Adolygiad Comisiynu Priffyrdd a Chludiant y cynllun i greu llwybrau cerdded newydd/gwell rhwng ysgolion (a chymunedau) fel ffordd bosib o arbed refeniw yn y tymor canolig. Byddai hyn o ganlyniad i leihau'r baich ar yr ALl i ddarparu cludiant statudol lle mae llwybr cerdded diogel ar gael o fewn y radiws statudol. Argymhellwyd tri llwybr gan gynnig y posibilrwydd o arbed £280 y flwyddyn, yng Ngellifedw, Pontybrenin a'r Clun.
- Clywodd y panel y byddai perygl o gael ein herio bob tro lle na fyddai gofynion a disgwyliadau'r rhieni'n cael eu bodloni wrth argymell newidiadau yn y ddarpariaeth.
- Mae hefyd risg barhaus o ran newidiadau pellach i'r polisi cenedlaethol, a all godi disgwyliadau'n uwch yn ogystal â chyfyngu'r incwm y gellir ei wneud o werthu seddi dros ben yn y dyfodol. Mae'r panel yn cydnabod y gall y risgiau hyn effeithio ar yr hyn rydym yn ceisio'i wneud a'i danseilio.

## 6 **Cynllun Gwaith 2019 - 2020**

Nodi taith i Ysgol Gynradd Waunwen ac i Ysgol Gyfun Penyrheol ar gyfer y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ddinesig newydd.

y cyfarfod i ben am 5.20pm